# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 114(v6)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Llifogydd

(30 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar gyfarfod ag undebau llafur y GIG

(30 munud)

### 5 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Blaenoriaethau Economaidd a Chysylltiadau Llywodraeth y DU

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar Wcráin - WEDI'I OHIRIO TAN 24 IONAWR

(0 munud)

## 7 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu

(30 munud)

## 8 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023

(15 munud)

**NDM8179** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2022.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU

(15 munud)

**NDM8176** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Banc Seilwaith y DU i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mai 2022 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Gorffennaf 2022 a 30 Tachwedd 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Banc Seilwaith y DU *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**
Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Adroddiad a Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Saesneg yn unig)*

## 10 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) - WEDI'I OHIRIO TAN 14 CHWEFROR

(0 munud)

**NDM8174** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Awst 2022 a gosodwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Hydref 2022, 17 Tachwedd 2022 a 6 Rhagfyr 2022, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Memorandwm Rhif 2 a Rhif 3)
Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Rhif 2)

## 11 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Esgyll Siarcod

(30 munud)

**NDM8175** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Ddeddf Esgyll Siarcod i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Tachwedd 2022, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Y Bil Esgyll Siarcod *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 12 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)

(45 munud)

**NDM8177** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) *(Saesneg yn unig)*

Dogfennau Ategol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad *(Saesneg yn unig)*

## 13 Dadl Ystyriaeth Gychwynnol ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

(45 munud)

**NDM8178** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26C.18:

1. Yn cytuno y dylai Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi.

Gosodwyd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 4 Gorffennaf 2022;

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) gerbron y Senedd ar 23 Rhagfyr 2022.

## 14 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 18 Ionawr 2023